**(HCC 644)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Llun 6 Gorffennaf 2015**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Daniel Thomas a David Lloyd-Thomas (Llywodraeth Cymru)

**Tim Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Mai 2015*

Yn ystod y mis, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y canlynol:-

- Cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog i ddarparu diweddariad am weithgareddau HCC a mater mamwladeiddio ardollau (*levy repatriation)*;
- Derbyniad "Dydd Ewrop" yn Y Senedd, Bae Caerdydd trwy wahoddiad Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru;
- Cyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch (gweler Eitem 11);
- Gŵyl Ddefaid NSA Cymru 2015 ar ffermydd Glanmiheli a Drefor, Ceri.

*Mehefin / Gorffennaf 2015*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynrychioli HCC yng Nghynhadledd Ffermio Llywodraeth Cymru. Yn ystod y gynhadledd, lansiodd y Dirprwy Weinidog yr ymgynghoriad a fydd yn para am 12 wythnos ar gyfer "Fframwaith Strategol i Amaethyddiaeth yng Nghymru".

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o grŵp Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth Biowyddorau Anifeiliaid yn Sefydliad Moredun, Caeredin.

Yn ogystal, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y canlynol:-

- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn Aberystwyth
- Cinio Blynyddol y BVA yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd
- Y Gwobrau Rheoli Cig blynyddol, a gynhaliwyd eleni yn Birmingham.

Bu'r Cadeirydd mewn derbyniad gan CLA Cymru yn Y Senedd, Bae Caerdydd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd ac Eitem 9 - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Mai 2015 (HCC 633)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Mai 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Llenwi bylchau Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC*

Nid oedd diweddariad i'w roi. Ni chafwyd cadarnhad eto gan Lywodraeth Cymru ynghylch penodiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol i Fwrdd HCC am dymor arall.

*Rheolaeth Carcasau ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen*

Roedd adroddiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar systemau a adolygwyd yn Awstralia, Seland Newydd ac UDA ac yng ngwledydd yr UE.

Byddai gwybodaeth bellach ar gael yn y cyfarfod nesaf.

*Cynllun Gweithredu Strategol ar Gyfer y Diwydiant Cig Coch yng Nghymru 2015 - 2020*

Câi'r cyhoeddiad ei lansio'n ffurfiol gan y Dirprwy Weinidog ddydd Mawrth 14 Gorffennaf 2015 yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 634)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd y Weithrediaeth a'r staff ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar weithgareddau ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru a'r mater o ostyngiad ym mhrisiau ŵyn.

*Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2015*

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant

Byddai'r ymgyrch eleni yn cynnwys:-

- Hyrwyddiad haf yn canolbwyntio ar amlbwrpasedd Cig Oen Cymru PGI ar gyfer barbeciws, gwyliau haf a bwyta'n gyffredinol yn yr awyr agored;
- Posteri mawr wedi'u lleoli'n strategol mewn 150 o leoliadau ger archfarchnadoedd mawr mewn trefi a dinasoedd ar draws Prydain;
- Hysbysebion digidol wedi'u targedu at gynulleidfaoedd ac ardaloedd daearyddol penodol;
- Hysbyseb deledu newydd;
- Hyrwyddiadau ar becynnau, gan gynnwys cystadleuaeth sy'n cynnig gwobr fawr;
- Hyrwyddiad yr hydref yn canolbwyntio ar ryseitiau cynnes ar gyfer y nosweithiau hir;
- Gweithio gydag archfarchnadoedd a siopau annibynnol y Stryd Fawr er mwyn creu mwy o le ar y silffoedd i Gig Oen Cymru.

Mynegodd y Bwrdd bryderon ynghylch y gostyngiad dramatig ym mhrisiau ŵyn. Roedd amryw resymau am hyn, gan gynnwys mwy o gig oen yn cyrraedd o Seland Newydd a phunt gref yn arwain at lai o allforio a mwy o fewnforio. Roedd hyn yn ei dro wedi golygu bod ffermwyr yn derbyn dipyn yn llai am eu hŵyn mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd.

Gyda golwg ar brisiau ŵyn yn y farchnad ar hyn o bryd, roedd y Weithrediaeth yn argymell y dylai'r ymgyrch farchnata ar gyfer Cig Oen Cymru PGI ddechrau ddeufis yn gynharach nag arfer. Cyflwynid yr ymgyrch mewn dau gam; byddai ymgyrch yr haf yn dechrau ym mis Gorffennaf 2015 ag amrediad o weithgareddau ac yna ceid ymgyrch yr hydref a fyddai'n hyrwyddo'r brand i mewn i fis Tachwedd 2015.

Fodd bynnag, er mwyn i'r ymgyrch ddechrau'n gynharach, roedd angen mwy arian oherwydd byddai'r costau cysylltiol yn fwy na'r gyllideb a

neilltuwyd ar gyfer 2015 / 2016. Felly, er mwyn i hyn ddigwydd, roedd y Weithrediaeth am i'r Bwrdd ystyried defnyddio tua £150,000 o gronfa wrth-gefn HCC.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol y dylid defnyddio arian wrth-gefn i ddechrau ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI 2015 yn gynharach a'i dwysau.

*Ysgoloriaeth HCC 2015*

Roedd y dyddiad cau ar gyfer yr uchod wedi mynd heibio a rhoddwyd pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer i'w cyfweld ar 9 Gorffennaf 2015. Cyhoeddid enwau'r Ysgolorion llwyddiannus yn ystod derbyniad ar stondin HCC yn Sioe Frenhinol Cymru.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 635)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 636)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2015*

Rhoddwyd manylion i'r Bwrdd am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni:-

Cynhelid derbyniad brecwast y Cadeirydd am 8.15am ddydd Llun 21 Gorffennaf 2015 pan fyddai Comisiynydd Amaeth a Datblygu Gwledig yr UE, Phil Hogan a'r Dirprwy Weinidog yn bresennol.

Byddai pum newyddiadurwr o'r Eidal, sy'n gweithio i gyhoeddiadau masnach a defnyddwyr, yn ymweld â'r stondin ddydd Llun ynghyd â grŵp o brynwyr o'r Almaen.

Byddai gan y stondin corfforaethol ddyddiau â themâu eleni: Dydd Rhyngwladol (Llun), Iechyd (Mawrth), Porc (Mercher) a Hyfforddiant a Sgiliau (Iau). Cynhelid arddangosiadau coginio gan ben-cogyddion amlwg drwy gydol y sioe.

Hefyd, byddai HCC yn croesawu aelodau ifainc Tîm Coginio Cymru a chynhelid nifer o arddangosiadau a chystadlaethau torri cig drwy gydol yr wythnos.

Un o brif themâu'r stondin Datblygu fyddai ymwrthedd gwrthlyngyrol. Roedd prosiect diweddar gan HCC wedi tynnu sylw at y lefelau cynyddol o ymwrthedd ar nifer o ffermydd defaid Cymru a phwysigrwydd deall pa mor effeithiol yw triniaethau dilyngyru.

Byddai gan ffermwyr gyfle i ddyfalu pwysau pedwar oen a byddai drensh o'r radd flaenaf yn cael ei rhoi fel gwobr ddyddiol. Yn ogystal, rhoddi cyngor ar sut i raddnodi drylliau drensio yn gywir.

Cynhelid cystadleuaeth graddio carcasau a byddai casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau ar gael – â phynciau amrywiol fel iechyd a lles anifeiliaid, rheoli da byw a thir glas ac argraffiad diweddaraf y Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig.

*Staff*

Yn ddiweddar roedd HCC wedi penodi aelodau staff newydd, sef Swyddog Gweithredol Datblygu'r Diwydiant, James Ruggeri, a Swyddog Datblygu'r Diwydiant, Gwawr Parry.

7. **I dderbyn a chymeradwyo adroddiad ynglŷn â thargedau Cynllun Busnes HCC 2014 / 2015 (HCC 637)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd yr adolygiad yn amlinellu perfformiad HCC yn ôl y Cynllun Busnes ar gyfer blwyddyn ariannol 2014 / 2015.

Nodwyd bod lliwiau "goleuadau traffig" newydd wedi cael eu cyflwyno i'r tablau eleni er mwyn dynodi'r canlynol:-

Gwyrdd – i ddynodi bod y targedau wedi'u cyflawni'n llwyr.
Ambr – i ddynodi bod y targedau wedi'u cyflawni'n rhannol.
Coch – i ddynodi bod y targedau heb eu cyflawni. Rhoddwyd esboniad yn y tablau i ddweud pan na chyflawnwyd targed ac amlygwyd hyn mewn glas.

Roedd y ddogfen yn dangos fod targedau Cynllun Busnes HCC 2014 / 2015 wedi'u cyflawni yn gyffredinol.

Yn amodol ar ymholiad ynghylch dyblygu ar dudalen 3, cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

8. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

a. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Mehefin 2015*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *<u>I dderbyn crynodeb o’r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2014 / 2015 (HCC 638)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen ac wedi ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo’r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2014 / 2015 (HCC 639)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2013 / 2014.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr fod yr wybodaeth yn y Datganiadau Ariannol yn gywir ac wedi ei throsglwyddo i'r Archwilwyr.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2014 / 2015 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

d. *<u>I fabwysiadu’r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mawrth 2015 (HCC 640)</u>*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mawrth 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

9. **<u>I ystyried drafft o Bolisi Is-frand Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 642)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Pennaeth Gweithrediadau.

Roedd strategaeth frand gyffredin HCC wedi bod o fudd sylweddol i’r holl ddiwydiant cig coch yng Nghymru, gan ddarparu llwyfan i’r holl gynhyrchwyr, proseswyr ac allforwyr cymwys yng Nghymru ar gyfer datblygu marchnadoedd premiwm yn y DG a thramor.

Fodd bynnag, fel roedd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cig Coch wedi cydnabod, roedd angen i'r diwydiant gyflenwi cynhyrchion sy’n ateb gofynion manylach gan y cwsmer (megis cynhyrchion lleol, arbenigol neu’n berthynol i frîd penodol).

“Dylai gweithgareddau i hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru wneud yn siŵr fod yna gydbwysedd wrth farchnata cynhyrchion cig er mwyn cymell cynhyrchu cig coch yng Nghymru a chefnogi is-frandiau, gan wneud yn siŵr ar yr un pryd nad yw cryfder brand ‘Cymru’ yn gwanhau nac yn cael ei danseilio.”

Roedd Llywodraeth Cymru am gynyddu nifer yr Enwau Bwyd Gwarchodedig yng Nghymru. Er bod hyn yn gam positif i fwyd a diod Cymru yn gyffredinol, nid oedd cynyddu nifer yr Enwau Bwyd Gwarchodedig yng Nghymru fel y cyfryw yn gyson â'r Cynllun Gweithredu Strategol sy'n pennu ymagwedd strategol unedig dan fantell Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

Roedd y papur yn argymell polisi is-frandiau PGI a fyddai'n dwyn brandiau cyfredol ac is-frandiau yn fwy ffurfiol dan fantell PGI.

Fel canlyniad, rhaid i unrhyw bolisi is-frand a fabwysiedir gael ei weithredu mewn modd a fyddai'n caniatáu i HCC gyflawni ei gyfrifoldebau a gwneud yn siŵr fod hygrededd dynodiadau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI yn cael ei warchod.

Cafodd y papur polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Cytunwyd rhannu a thrafod y papur polisi gydag Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru.

10. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad o'r uchod:-

Roedd y Grŵp Ardoll Cig Coch wedi cyfarfod ar 18 Mai 2015 lle cafwyd trafodaeth a chynnydd pellach ynghylch ailddosbarthu a blaenoriaethu tecach ar gyfer gweithio cyfunol.

Byddai cyfarfod pellach o'r Grŵp Ardoll Cig Coch llawn yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2015.

Croesawodd y Bwrdd yr hyn a gyflawnwyd.

11. **<u>I dderbyn cyflwyniad ar EIDCymru – cronfa ddata symud defaid</u>**

Cyflwynwyd yr uchod gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd dwy elfen yn perthyn i EIDCymru:-

- Y gronfa ddata ar-lein i dderbyn symudiadau defaid yn electronig; a
- Gwasanaeth i gynorthwyo diwydiant defaid Cymru i ddefnyddio'r system ar-lein newydd.

Swyddogaeth EIDCymru oedd:-

- Galluogi Cymru i gyflawni Rheoliad CE 21/2004 a gyflwynwyd ar ôl Clwy'r Traed a'r Genau 2001
- Darparu system olrheinedd fodern a chadarn
- Galluogi ymateb cyflym ac effeithiol mewn unrhyw achos o glefyd

- Rhoi cyfle i geidwaid ddefnyddio’r lefel uwch o olrheinedd i ddatblygu eu busnes.

Y gofynion deddfwriaethol ar EIDCymru oedd:-

- Byddai’n orfodol i ladd-dai, marchnadoedd da byw, canolfannau casglu, sioeau, gwerthiannau ac ymgynulliadau adrodd symudiadau defaid yn electronig o 1 Ionawr 2016
- Ni fyddai’n orfodol i geidwaid defaid gofnodi symudiadau yn electronig, ond fe’u cymhellid i wneud hynny
- Y nod yw adrodd 90% o symudiadau yn electronig o fewn tair blynedd.

Y cynnydd hyd yma:-

- Staff ymgysylltu yn eu swyddi (John Richards a Jonathan Pryce)
- Ymgysylltiad â lladd-dai / marchnadoedd wedi dechrau
- Profi defnyddwyr (rhestrwyd ffermwyr ar gyfer Medi 2015)
- Rhagbrofi’r system o fis Tachwedd 2015
- Swyddfa – recriwtio staff wedi dechrau, yr holl staff i'w penodi erbyn Rhagfyr 2015.

12. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gyfarfu ddydd Mercher 3 Mehefin 2015*

Rhoddodd y Pennaeth Gweithrediadau adroddiad llafar am y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Mawrth 2015 (HCC 643)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Mehefin 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **Unrhyw fater arall**

*Ymddiswyddliad o Fwrdd HCC*

Er mwyn canolbwyntio ar ei swyddogaeth newydd yn Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, dywedodd Glyn Roberts y byddai’n ymddiswyddo o fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol o Fwrdd HCC.

Ar ran y Bwrdd a’r Weithrediaeth, cafodd Glyn ei longyfarch gan y Cadeirydd a diolchodd iddo am ei gyfraniad clodfawr i’r diwydiant ac i HCC dros y blynyddoedd.

*Rheolwr Cyfathrebu*

Nodwyd bod Alan Morris wedi ymddiswyddo o fod yn Rheolwr Cyfathrebu HCC ac y byddai'n dechrau mewn swydd debyg gyda Chymwysterau Cymru ym mis Medi 2015.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Alan am ei ymdrechion yn Rheolwr Cyfathrebu HCC a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

*Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru*

Cytunwyd anfon llythyr at Gareth Jones, i ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.

*Llywodraeth Cymru – Y Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru*

Nodwyd bod aelodaeth lawn bellach i'r Bwrdd, ond roedd Cadeirydd eto i'w benodi.

Cytunwyd gwahodd Keith Smyton, Pennaeth yr Is-adran Fwyd, Llywodraeth Cymru, i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 4 Medi 2015.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**